# Cynllun Cyflogaeth
# LLŶN AC EIFIONYDD

Drafft

Mawrth 2016

# Cynnwys

(i'w osod cyn cyhoeddi)

Drafft

# Cyflwyniad
**gan Gadeirydd Fforwm Ardal Dwyfor ac Aelod Cabinet dros yr Economi**

(i'w lunio cyn cyhoeddi)

Drafft

# 1. Rhagair

Mae Gwynedd yn sir ddaearyddol eang a gwasgaredig, gyda nodweddion ei heconomi yn amrywio rhwng, ac o fewn, ei hardaloedd. Mae hefyd yn sir ymylol o ran ei chysylltiadau â'r prif farchnadoedd, gyda Dwyfor, sef ardal Llŷn ac Eifionydd y mwyaf ymylol a phell o'r marchnadoedd hynny oherwydd ei lleoliad yn y gorllewin, ym mhegwn eithaf y sir.

Pwrpas y Cynllun hwn ydi adnabod sefyllfa cyflogaeth yn Llŷn ac Eifionydd, gan gynnwys edrych ar y boblogaeth oed gwaith, y gofynion am waith, y sectorau gwaith o fewn yr ardal a'u maint o ran nifer mentrau a'u cyflogaeth, natur gweithleoedd yr ardal, a sefyllfa ffyniant yr ardal, gan hefyd osod nod ac amcanion ar gyfer ymateb i'r sefyllfa, a nodi rhaglen waith bosib.

Mae'r Cynllun yn seiliedig ar dystiolaeth data 2013 ac, yn dilyn y patrwm arloesol fabwysiadwyd gyda Chynllun Cyflogaeth Meirionnydd, mae'n ceisio creu darlun o economi Llŷn ac Eifionydd ar bwynt mewn amser, a'r darlun hwnnw, lle gellir, wedi ei ddatblygu o'r ystadegau perthnasol i'r ardaloedd lleol - Ardal Pen Llŷn, Ardal De Llŷn, Ardal Pwllheli, Ardal Nefyn a Gogledd Llŷn, Ardal Criccieth ac Ardal Porthmadog.

Mae cymryd golwg mwy lleol yn hytrach na dibynnu ar ystadegau ar sail ddaearyddol sirol neu isranbarthol wedi amlygu darlun ychydig yn wahanol o Lŷn ac Eifionydd, a pha ffactorau sydd angen sylw os ydi'r ardal a'i thrigolion i ffynnu i'r dyfodol.


Mae'r darlun ystadegol, felly, wedi adnabod rhai cryfderau e.e. y ganran uchaf yn y sir o'r rhai sy'n economaidd weithgar. Fodd bynnag, mae hefyd wedi adnabod sawl her. Yn gryno:

- Her cynaladwyedd i'r dyfodol o ran cynnal maint y boblogaeth oed gwaith;
- Her bresennol o anallu'r ardal i ddarparu cyflogaeth ar raddfa ddigonol i faint ei phoblogaeth oed gwaith yn enwedig mewn rhai o'r ardaloedd lleol;
- Her diffyg swyddi gwag i gwrdd â'r gofyn presennol – a'r nifer uchel sy'n teithio tu hwnt i'r ardal i'w gwaith;
- Her ymateb i'r newidiadau yn y drefn Lles sydd yn dod yn weithredol, a darparu'r swyddi ychwanegol fydd eu hangen os am gwrdd â disgwyliadau Llywodraeth Prydain i bobl symud o fudd-daliadau i waith;
- Her diffyg presenoldeb sectorau gwerth uchel sy'n cynnig swyddi da efo cyflogau uwch;
- Her cyflogaeth uchel o fewn sectorau gyda chyflogau is;
- Her dibyniaeth yr ardal ar fentrau a gweithleoedd meicro – a diffyg mas critigol ohonynt mewn sectorau gwerth uchel;
- Her incwm isel a thlodi eang mewn ardal sydd wedi dioddef yn arbennig o ostyngiad incwm sylweddol dros gyfnod y Dirwasgiad a pholisïau Llymder ym Mhrydain.

Dyma gyfres o heriau felly, sydd efo'i gilydd yn cael effaith negyddol ar economi a chyflogaeth o fewn yr ardal - ac, oni bai am gamau i'w hateb, mae peryg iddynt filwriaethu yn erbyn gallu cynnal lefel y boblogaeth a sicrhau dyfodol economaidd llewyrchus.

Drafft

# 2. Daearyddiaeth y Cynllun





Lleolir Llŷn ac Eifionydd (Dwyfor) yn eithaf gorllewinol Gwynedd. Mae'r ardal yn 621Km$^2$ sydd yn 24% o holl diriogaeth sir Gwynedd. Cymerir bron i awr a hanner i yrru o un pen yr ardal i'r llall (Uwchmynydd i Nant Gwynant).

Yn ddaearyddol, mae'r ardal gydag arfordir hir (153Km) sydd yn 44% o arfordir Gwynedd gyfan ac mae'n ymestyn o benrhyn Llŷn i ucheldiroedd Eryri. Un o brif nodweddion yr ardal yw ansawdd rhyfeddol y tirwedd naturiol; fel a gydnabyddir gan ddynodiad Parc Cenedlaethol Eryri, Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn ac Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau.

Mae Pen Llŷn ac Eifionydd yn gartref i 27,500 o drigolion (23% o gyfanswm Gwynedd) gyda 56% ohonynt o oed gwaith (16 i 64). Mae dros 71% o'r boblogaeth yn gallu'r Gymraeg. Mae'r mwyafrif o'r boblogaeth yn byw yn y gadwyn o drefi a phentrefi sydd wedi eu lleoli ar hyd yr arfordir. Pwllheli a Porthmadog yw'r canolfannau mwyaf poblog yn Llŷn ac Eifionydd.

I bwrpas y Cynllun Cyflogaeth mae Llŷn ac Eifionydd wedi ei ddethol i chwe ardal:




| Ardal | Arwynebedd (% o'r cyfan) | Poblogaeth (% o'r cyfan) | Poblogaeth 16 - 64 (% o'r cyfan) | Wardiau |
|---|---|---|---|---|
| Nefyn a Gogledd Llŷn | 10,884ha (18%) | 5,282 (19%) | 57% (20%) | Nefyn, Morfa Nefyn, Llanaelhaearn, Clynnog |
| Pen Llŷn | 11,751ha (19%) | 2,931 (11%) | 57% (11%) | Aberdaron, Botwnnog, Tudweiliog |
| De Llŷn | 9,862ha (16%) | 4,291 (16%) | 54% (15%) | Llanengan, Abersoch, Llanbedrog, Efailnewydd / Buan |
| Pwllheli | 3,034ha (5%) | 5,313 (19%) | 58% (20%) | Pwllheli (De), Pwllheli (Gogledd), Abererch |
| Criccieth | 15,289ha (25%) | 5,000 (18%) | 55% (18%) | Criccieth, Llanystumdwy, Dolbenmaen |
| Porthmadog | 11,243ha (18%) | 4,767 (17%) | 55% (17%) | Porthmadog (Dwyrain), Porthmadog (Gorllewin), Porthmadog-Tremadog |

Draft

# 3. Y Gweithlu Posib




Drafft

Er mwyn cael darlun o faint y gweithlu a'r potensial i ychwanegu ato edrychwyd ar ffigyrau:

- Strwythur y boblogaeth fel cyd-destun
- Y boblogaeth oed gwaith a gweithgarwch economaidd;
- Y potensial i ychwanegu at y gweithlu;
- Y Budd-dal Ceiswyr Gwaith (JSA);
- Y mathau o swyddi roedd ceiswyr gwaith am eu cael.

Y **prif negeseuon** ydi (gweler Atodiad 1 am wybodaeth cefndirol):

<u>Y Boblogaeth Oed Gwaith</u>

- Llŷn ac Eifionydd oedd efo'r boblogaeth oed gwaith isaf o dair Ardal y sir, gyda gostyngiad o 237 ers 2012
- Roedd nifer a chanran rhai 65 oed a throsodd yn sylweddol uwch na'r grŵp ifanc (0-15oed), a hyn yn cynrychioli her i gynaladwyedd yr ardal yn y dyfodol;

<u>Y Gofyn am Waith a Swyddi ar Gael</u>


- Serch hynny roedd 28.9% o'r Ceiswyr Gwaith o fewn yr ardal o dan 25 oed;
- O'r ffigyrau JSA lleol yn unig (pob oed) gellir rhagweld ychwanegu 300-500 at y gweithlu yn Llŷn ac Eifionydd petai'r swyddi ar gael;
- O dair Ardal Gwynedd, Llŷn ac Eifionydd oedd gyda'r nifer isaf o swyddi gwag 155 swydd;
- Doedd dim digon o swyddi i gwrdd â'r gofyn gan y Ceiswyr Gwaith;
- Fe fydd y rhai ar Fudd-daliadau yn cael eu targedu o dan y diwygiadau yn y drefn Lles er mwyn eu cael i waith – roedd 1,395 o dderbynwyr Budd-daliadau Allan o Waith, a bydd canfod gwaith o fewn yr ardal ar gyfer hyd yn oed cyfran o'r rhain yn gryn her.

Er mwyn ymateb i'r prif heriau i gynyddu'r gweithlu bydd angen rhoi sylw gyda phartneriaid i ddatblygu ymyraethau priodol.

| Her | Ymateb |
|---|---|
| Cynnal y boblogaeth oed gwaith | Creu’r amodau i deuluoedd a phobl ifanc aros, neu ddychwelyd i Lŷn ac Eifionydd i fyw a gweithio |
| Diffyg swyddi i gwrdd â’r galw heddiw ac yn y dyfodol | Sefydlu’r amodau i greu rhagor o swyddi newydd o fewn yr ardal |
| | Cysylltu pobl oed gwaith gyda swyddi a chyfleoedd newydd o fewn yr ardal, a chanolfannau gwaith cyfagos tu hwnt i’r ardal |
| Newidiadau yn y drefn Lles | Datblygu sgiliau trigolion yr ardal, er mwyn sicrhau mynediad at swyddi a goresgyn rhwystrau i waith |

Drafft

# 4. Swyddi a Strwythur Cyflogaeth




Er mwyn cael darlun o strwythur cyflogaeth a sefyllfa swyddi yn Llŷn ac Eifionydd a'r ardaloedd mwy lleol edrychwyd ar

- Nifer a mathau o swyddi ar gael;
- Natur swyddi'r gweithlu;
- Faint sy'n cael eu cyflogi yn yr ardal ac yn lleol;
- Sectorau gwaith a'r gyflogaeth fesul sector;
- Maint mentrau fesul sector a'u cyflogaeth;
- Eiddo busnes trefi'r ardal, a faint mewn defnydd.

Y **prif negeseuon** ydi (gweler Atodiad 1 am wybodaeth cefndirol):

<u>Swyddi Gwag</u>

- Doedd dim digon o swyddi i gwrdd â'r gofyn gan y Ceiswyr Gwaith;
- Ar ben hyn, amlygwyd bwlch cyflogaeth sylweddol yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd lleol, ar wahân i Ardal Porthmadog – a'r bwlch mwyaf yn Ardal Nefyn & Gogledd Llŷn, ardal gyda phoblogaeth uchel oed gwaith;
- Roedd oddeutu 2,739 yn teithio tu hwnt i Lŷn ac Eifionydd i weithio, ac eraill yn teithio i mewn i'r ardal i'w gwaith;
- Fe fydd y rhai ar Fudd-daliadau yn cael eu targedu o dan y diwygiadau yn y drefn Lles er mwyn eu cael i waith – roedd 1,395 o dderbynwyr Budd-daliadau Allan o Waith, a bydd canfod gwaith o fewn yr ardal ar gyfer hyd yn oed cyfran o'r rhain yn gryn her;
- Doedd y swyddi ar gael ddim yn cyfateb i angen neu ddyhead cyfran helaeth o'r ceiswyr gwaith;
- Doedd angen cyflogwyr ddim chwaith yn cael ei ateb – gydag e.e. neb yn ceisio gwaith yn y maes Technoleg er bod 9 swydd ar gael;
- Roedd canran is o swyddi'r ardal yn rhai llawn-amser;

Drafft

- Roedd yr economi yn parhau yn un dymhorol.

<u>Sectorau a Chyflogaeth</u>

- Roedd y gyflogaeth fwyaf o ddigon yn y sectorau Bwyd & Llety (2,100) ac Amaeth, Coedwigaeth & Physgota, gyda chyflogaeth arwyddocaol hefyd yn y sectorau Mânwerthu (1,400) ac Iechyd (1,100);
- Roedd Adeiladwaith a Chyfanwerthu hefyd yn sectorau gyda phresenoldeb uwch yn yr economi leol;
- Does yr un o'r sectorau yma yn cael eu cyfrif fel sectorau sy'n talu cyflogau uchel;
- Mae rhannau o'r sector Celfyddydau, Adloniant, Hamdden a Gwasanaethau Eraill yn cael eu cyfrif yn cynnig cyflogaeth gwerth uchel, a thra roedd y sector yn gyfrifol am 5.1% o fentrau'r ardal - tipyn is nag Arfon na Chymru - o ran swyddi roedd yn cyflogi 700, sef 8.1% o gyflogaeth yr ardal, a hynny ddwywaith canran Cymru, ac Arfon, ond fod gan Arfon 1,100 o weithwyr yn y sector. Dyma bresenoldeb felly y gellir adeiladu arno wrth anelu am swyddi o safon;
- Roedd presenoldeb sector gwerth uchel Gwybodaeth a Chyfathrebu yn isel yn yr ardal, tipyn is nag yn Arfon, Cymru na'r DG, gyda 100 yn cael eu cyflogi yn Llŷn ac Eifionydd;
- Roedd yr ardal yn gryf yn y sectorau ystyrir yn rhai gwerth isel - a phrinder cyflogaeth yn y sectorau hynny ystyrir yn rhai gwerth uchel gyda chyflogau da;
- Roedd y sector breifat yn gryfach yn yr ardal (78.5%), a'r sector gyhoeddus yn wannach yn yr ardal (21.5%), nag yn ardaloedd eraill Gwynedd, na Chymru;
- Roedd 88.1% o weithleoedd yr ardal yn rhai Meicro (0-9 gweithiwr), y ganran uchaf o 3 Ardal Gwynedd, ond y gyflogaeth fwyaf (3,900 o weithwyr) mewn gweithleoedd Bach (10-49 gweithiwr) - prin iawn oedd y mentrau Mawr (dros 250 gweithiwr);
- Roedd canran arwyddocaol is o eiddo busnes mewn defnydd yn nhref Nefyn.

Er mwyn ymateb i'r prif heriau o wendid strwythurol yr economi, a methiant y farchnad o ran cyflogaeth ddigonol ac addas, bydd angen rhoi sylw gyda phartneriaid i ddatblygu ymyraethau priodol.

| Her | Ymateb |
|---|---|
| Diffyg presenoldeb sectorau gwerth uchel a swyddi gyda chyflogau da | Sefydlu'r amodau i wreiddio a thyfu sectorau gwerth uchel o fewn yr ardal, yn arbennig y rhai all gynnig amrywiaeth o swyddi newydd a chyflogau da |
| | Cefnogi busnesau lleol sydd eisoes mewn sectorau gwerth uchel i gydweithio a thyfu |
| Dibyniaeth yr ardal ar fentrau Meicro a Bach | Cefnogi busnesau lleol i ddod yn fwy mentrus, cynyddu eu hincwm a'u galluogi i fod yn gystadleuol yn y farchnad |
| | Cefnogi busnesau'r ardal i gyrraedd marchnadoedd newydd |
| | Cysylltu busnesau'r ardal efo'r cyfleoedd newydd o fuddsoddiadau cyfalaf mawr |
| Diffyg swyddi a bwlch cyflogaeth sylweddol, yn enwedig yn | Cysylltu'r boblogaeth oed gwaith efo swyddi a sectorau newydd o fewn Llŷn ac Eifionydd, ac mewn canolfannau gwaith a safleoedd cyfagos |

Draft

| | |
|---|---|
| Ardaloedd Lleol Llŷn, ac yn fwyaf arbennig yn Ardal Nefyn & Gogledd Llŷn a Phen Llŷn | Manteisio ar y broblem canran is o eiddo busnes mewn defnydd yn nhref Nefyn, gan ddefnyddio'r asedau yma ac yn rhai o bentrefi Pen Llŷn, i greu cyfleon gwaith a menter |
| Anghenion cyflogwyr ddim yn cael eu hateb | Datblygu sgiliau trigolion yr ardal i gwrdd ag anghenion cyflogwyr heddiw, ac ar gyfer sectorau gwerth uchel y dyfodol |

Drafft

# 5. Sefyllfa Ffyniant yr Ardal




Drafft

Er mwyn adnabod sefyllfa ffyniant Llŷn ac Eifionydd edrychwyd ar:

- Y darlun traddodiadol arferol roddir ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC), gyda'r mynegai mwyaf diweddar yn 2011;

Turiwyd ymhellach o dan y wyneb wedyn i geisio darlun lleol mwy perthnasol i gymunedau ar y ddaear fel petai, ac i agweddau sy'n cysylltu efo gwaith a chyflogaeth, gan edrych ar:

- Incwm aelwydydd
- Y diffiniad cydnabyddedig o dlodi a sefyllfa'r ardal
- Incwm ochr yn ochr â phrisiau tai, gan fesur y gallu lleol i brynu tŷ.

Y **prif negeseuon** ydi (gweler Atodiad 1 am wybodaeth cefndirol):

<u>Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru</u>

- Tra, yn ôl MALlC, does yr un ardal gyfrif yn Llŷn ac Eifionydd yn ymddangos yn y 30% gwaethaf yng Nghymru o ran incwm, mae ffigyrau o ffynonellau swyddogol cydnabyddedig eraill yn amlygu problem wirioneddol o incwm isel;
- Mae edrych ar ardaloedd mwy lleol trwy gyfrwng daearyddiaeth y Cynllun Cyflogaeth yma, a setiau eraill o wybodaeth wedi eu seilio ar wardiau, yn cynnig darlun tra gwahanol o sefyllfa ffyniant Llŷn ac Eifionydd – a darlun cefndirol mwy perthnasol i'r maes cyflogaeth.

<u>Ydi'r Ardal yn Ffynnu?</u>

- Roedd 38.2% o aelwydydd Llŷn ac Eifionydd, yn byw o dan y trothwy tlodi yn 2013 - canran uwch nag yn Arfon, Gwynedd, Cymru na'r DG - gyda 18.4% o'r aelwydydd hefyd efo incwm o lai na £10,000 y flwyddyn;
- Dros gyfnod y Dirwasgiad a pholisïau Llymder ym Mhrydain gwelodd Llŷn ac Eifionydd ostyngiad o 13.1% yn incwm canolrif aelwydydd, sef colled o £3,253;

- Yn nhermau Cymru a'r DG roedd canran y gostyngiad incwm rhwng 2009 a 2013 yn Llŷn ac Eifionydd ddwywaith y ganran yng Nghymru (6.6%) a'r DG (6.5%);
- Yn gyffredinol doedd incwm teuluoedd yr ardal ddim yn ddigon i gwrdd â phrisiau tai yn lleol na gofynion benthycwyr morgais - mae hyn yn arwydd cydnabyddedig o dlodi eang ac nid dim ond mewn rhai lleoliadau a phocedi yn unig,

Er mwyn ymateb i'r prif heriau i ffyniant yr ardal bydd angen rhoi sylw gyda phartneriaid i ddatblygu ymyraethau priodol.

| Her | Ymateb |
|---|---|
| Incwm isel a thlodi eang | Rhoi sylw penodol i gynyddu lefelau incwm a chyflogau ar draws Llŷn ac Eifionydd |
| Gostyngiad incwm sylweddol dros gyfnod y Dirwasgiad a pholisi Llymder ym Mhrydain | |
| Diffyg cydnabyddiaeth i incwm isel yr ardal yn y mynegai swyddogol | Dylanwadu ar y penderfynwyr cenedlaethol er mwyn sicrhau cydnabyddiaeth i sefyllfa incwm isel yr ardal o fewn y setiau data swyddogol sy'n arwain at benderfyniadau cyllido |

Drafft

# 6. Prif Gasgliadau

Mae'n anorfod fod dibyniaeth economi Llŷn ac Eifionydd ar y mentrau meicro a bach, y diffyg gweithleoedd maint canolig a mawr, a phresenoldeb is y sector gyhoeddus, yn dylanwadu ar faint y gyflogaeth o fewn yr ardal ac ar bosibiliadau twf i gwrdd â gofynion cyflogaeth heddiw ac i'r dyfodol - ac yn anffodus, o gofio hefyd gryfder presenoldeb y sectorau gwerth isel, mae'n amlwg nad ydi'r mentrau micro a bach yma, er eu lluosogrwydd,  yn creu'r mas critigol sydd ei angen mewn sectorau gwerth uchel sy'n talu'n dda.

Gwelir methiant y farchnad o fewn yr economi leol - darlun o economi sydd yn sefyll yn ei hunfan, a'r angen am ymyrraeth i ysgogi mas critigol o fentrau mewn sectorau gwerth uchel, cefnogaeth i fentrau dyfu a chynyddu gwerth eu cynnyrch, ac i sicrhau fod yr ardal yn gwneud y mwyaf o'i hadnoddau naturiol, ei hasedau, ac o fuddsoddiadau ddaw er mwyn sicrhau twf mewn cyfleon gwaith, ac yn benodol gwaith efo cyflogau da.

Ar yr un pryd mae gan Lŷn ac Eifionydd adnoddau heb eu hail - o ran ei chyfoeth naturiol, amgylchedd, cynnyrch, ei threftadaeth, ei thalentau a'r iaith Gymraeg. Mae hunanddibyniaeth, a'r parodrwydd i greu bywoliaeth trwy fentro i fusnes, hefyd yn nodweddion amlwg yn yr ardal.

Mae cyfleoedd newydd eisoes yn cael eu datblygu yn Llŷn ac Eifionydd, a chyfleoedd posib eraill ar y gorwel trwy fuddsoddiadau newydd - yr her fydd tynnu budd ehangach o'r cyfleoedd hynny o ran cynyddu gwaith i drigolion yr ardal, yn enwedig ei phobl ifanc, codi lefelau cyflog o fewn yr ardal, gwneud y defnydd gorau o asedau'r ardal a chefnogi ffyniant a thwf busnesau lleol.

<u>Datblygu'r Ymateb</u>

Mae'r Cynllun Cyflogaeth, felly, yn gosod y cyfeiriad i'r Cyngor a'i bartneriaid yn eu hymdrechion i ymateb i'r her, ac i sicrhau mwy o swyddi o fewn yr ardal, gwella ansawdd y swyddi, a chynyddu nifer y swyddi hynny sy'n talu cyflogau da.

Gan adeiladu ar gryfderau'r ardal, rhagwelir gweithredu o dan gyfres o themâu sydd yn cydweddu a meysydd gweithgaredd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014 - 2020, sef.

- Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau diwylliannol / naturiol
- Hwyluso datblygiad masnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr.
- Ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol
- Manteisio ar dechnoleg ddigidol.

Drafft

# 7. Nod ac Amcanion

Ar sail y dadansoddiad o sefyllfa'r ardal, mabwysiadwyd y Nod ac Amcanion canlynol:

<u>Nod</u>

Cydweithio gyda phartneriaid i adeiladu ar gryfderau Llŷn ac Eifionydd - ei hadnoddau naturiol, cynnyrch, treftadaeth, ei thalentau, ei hunaniaeth a'r iaith Gymraeg - er mwyn cynyddu cyflogaeth, mentergarwch a swyddi gwerth uchel ar draws yr ardal, manteisio ar cyfleoedd i fusnesau lleol dyfu, a chreu'r amodau i bobl ifanc aros neu ddychwelyd i'r ardal i fyw a gweithio

<u>Amcanion</u>

1. Manteisio ar fuddsoddiadau cyfalaf mawr, ac isadeiledd newydd, o fewn yr ardal gan sefydlu a gweithredu glasbrint efo'n partneriaid ar gyfer cynhyrchu gwerth economaidd ychwanegol o ran cyfleoedd i fusnesau, creu swyddi, a chyflogaeth gwerth uchel
2. Annog a chefnogi mentergarwch o fewn yr ardal, yn arbennig o fewn ein pobl ifanc, ac mewn meysydd a sectorau gwerth uchel megis awyr agored, yr amgylchedd, ynni, gwyddonol, technoleg a'r diwydiannau creadigol, gan hefyd gefnogi busnesau'r ardal i fod yn fwy mentrus a chystadleuol
3. Sicrhau sylw penodol i ymateb i heriau cyflogaeth a manteisio ar cyfleoedd ac asedau Ardaloedd Nefyn a Phen-draw Llŷn
4. Gwneud y mwyaf o raglenni economaidd a sgilio cenedlaethol, rhanbarthol a sirol gan sicrhau gwyro ymyrraeth i Lŷn ac Eifionydd

Drafft

# 8. Rhaglen Waith 2016-17

Mae nifer o gynlluniau strategol economaidd ac adfywio eisoes ar waith gan y Cyngor a phartneriaid yn Llŷn ac Eifionydd, ac fydd rhain yn parhau i gael eu gweithredu ac maent wedi eu cynnwys yn y Rhaglen Waith.

Ar yr un pryd mae angen gweithredu yn rhagweithiol gyda chynlluniau pwrpasol i ymateb i'r heriau sydd wedi eu hadnabod ac i gyfleoedd newydd.

Mae'r sefyllfa gyllidol dros y cyfnod nesaf yn mynd i fod yn un heriol, ond mae cyfleoedd hefyd, gan gynnwys gwyro cynlluniau ac uchafu gwariant rhaglenni cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol i amgylchiadau Llŷn ac Eifionydd.

Adolygir a chyhoeddir y Rhaglen Waith yn flynyddol a dyma Raglen Waith gyntaf y Cynllun hyd at ddiwedd y flwyddyn 2016-17. Mae'r Rhaglen yn bennaf yn seiliedig ar ymrwymiadau Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd (wedi eu dynodi gan *):

Drafft

| Cynllun | Gweithgaredd | Gweithredu |
|---|---|---|
| Swyddi gwerth uchel ac o ansawdd* | • Cyfeirio ymholiadau mewnfuddsoddi priodol i ardal Llŷn ac Eifionydd<br>• Teilwra canlyniadau ymchwil y rhaglen i'r sectorau gwerth uchel mwyaf perthnasol i Wynedd yn benodol i gryfderau / cyfleoedd Llŷn ac Eifionydd.<br>• Cyfeirio'n benodol i Lŷn ac Eifionydd wrth hyrwyddo'r sir yn lleoliad ar gyfer busnesau yn cynnig swyddi gwerth uchel.<br>• Cefnogi busnesau Llŷn ac Eifionydd i fanteisio ar gyfleoedd yn deillio o fuddsoddiadau sylweddol megis Wylfa Newydd a Pharth Menter Eryri.<br>• Sefydlu rhwydweithiau busnes i gefnogi cwmnïau ac unigolion yn gweithio o fewn meysydd gwerth uchel megis y diwydiannau creadigol a thechnoleg gwybodaeth i gydweithio. | Hyd at 31/03/17 |
| Cadw'r budd yn lleol* | • Rhoi sylw penodol i annog a chefnogi mentrau o Lŷn ac Eifionydd i gyflawni nwyddau a gwasanaethau i'r Cyngor.<br>• Adnabod a chydweithio gyda buddsoddiadau mawrion yn isadeiledd Llŷn ac Eifionydd (e.e. isadeiledd llifogydd) gan adnabod a chytuno ar ddulliau o uchafu'r budd i drigolion a busnesau lleol. | Hyd at 31/03/17 |

| Cynllun | Gweithgaredd | Gweithredu |
|---|---|---|
| | • Gweithredu'r rhaglen Partneriaeth Ganol Tref ym Mhorthmadog gan ymchwilio i adnabod a lledaenu ymarfer da yn deillio o'r rhaglen i rannau eraill o ardal Llŷn ac Eifionydd. | |
| Gwynedd Ddigidol* | • Sicrhau cwblhau'r rhaglen Cyflymu Cymru cyn gynted â phosib yn Llŷn ac Eifionydd (bandeang cyflym eisoes wedi cychwyn cael ei ddarparu ymhob ardal cyfnewidfa ffon ond am un).<br>• Hyrwyddo'r grant Allwedd Bandeang Cymru i'r ychydig fusnesau fydd ddim yn erbyn gwasanaeth drwy Cyflymu Cymru (pan yn hysbys), ynghyd a hyrwyddo argaeledd grantiau bandeang uwchgyflym i fusnesau sydd angen gwell darpariaeth .<br>• Pwyso ar gwmnïau ffôn symudol i wella ansawdd ac argaeledd eu darpariaeth data yn Llŷn ac Eifionydd.<br>• Sicrhau fod busnesau Llŷn ac Eifionydd yn manteisio i'r eithaf ar fandeang drwy hyrwyddo darpariaeth y cynllun Cyflymu Busnes Cymru gan sicrhau fod y cynllun yn cyfeirio adnoddau a gweithgaredd i'r ardal. | Hyd at 31/03/17 |
| Cefnogi'r economi wledig* | • Cydweithio'n agos gyda Arloesi Gwynedd Wledig (darpariarth LEADER Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru yng Ngwynedd) i adnabod, datblygu a gweithredu cynlluniau peilot yn Llŷn ac Eifionydd fydd yn elwa Gwynedd Wledig yn ei gyfanrwydd. Cynlluniau peilot presennol yn cynnwys:<br>– prosiect cyfalaf lleol *Be Nesa Llŷn;*<br>– prosiect wi-fi cyhoeddus cymunedol yn Aberdaron<br>– treialu tocynnau digidol i'r sector trafnidiaeth gymunedol gyda *O Ddrws i Ddrws*<br>– datblygu gofod gwaith ar y cyd ym Mhorthmadog<br>• Annog a chefnogi ceisiadau i Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop gan gynnwys cydweithio i sefydlu strwythur priodol ar gyfer elfen LEADER y rhaglen.<br>• Annog a chefnogi mynediad gan fentrau yn Llŷn ac Eifionydd i gronfeydd cenedlaethol Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru gan gynnwys y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig<br>• Dylanwadu i gyfeirio adnoddau rhaglenni cenedlaethol Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru (megis Cyswllt Ffermio) i ardal Llŷn ac Eifionydd.<br>• Lobio i gyfeirio ffynonellau amgen o adnoddau ac arian megis y Loteri Fawr i ardaloedd | Hyd at 2020 |

Drafft

| Cynllun | Gweithgaredd | Gweithredu |
|---|---|---|
| | gwledig. | |
| Digwyddiadau proffil uchel a strategol* | • Gweithio law yn llaw a'r digwyddiadau mawr gan adnabod cyfleoedd, a datblygu syniadau a phrosiectau penodol er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd i fusnesau a thrigolion Gwynedd<br>• Gweithio'n agos gyda Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru ar brosiectau er mwyn denu buddsoddiad ychwanegol gan y Llywodraeth<br>• Gweithio gyda threfnwyr digwyddiadau er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i bobl ifanc Gwynedd elwa o'r digwyddiadau trwy gynorthwyo neu gymryd rhan ynddynt<br>• Parhau i gefnogi Plas Heli Cyf i ddatblygu darpariaeth y ganolfan gan ddenu digwyddiadau arwyddocaol i'r ardal.<br>• Gweithredu rhaglen i uchafu'r budd i'r gymuned lleol yn deillio o Gwŷl Rhif 6 ym Mhortmeirion gan gynnwys gweithgareddau penodol i annog / denu ymwelwyr i Borthmadog. | Hyd at 31/03/17 |
| Cydymdrechu yn erbyn tlodi* | • Paratoi a mabwysiadu Strategaeth Trechu Tlodi sirol gan sicrhau fod y cynllun yn cynnwys cydnabyddiaeth o amgylchiadau ac anghenion arbennig Gwynedd Wledig<br>• Gweithredu rhaglen gwytnwch digidol i gefnogi unigolion yng Ngwynedd i feddu ar y sgiliau i ennill budd o'r byd digidol ac yn arbennig o fewn cymunedau gwledig. Bydd ffocws penodol ar gefnogi trigolion ardaloedd gwledig i gael mynediad i wasanaethau ar-lein ac ar sicrhau'r nad yw unigolion yn cael eu heffeithio'n negyddol gan drosglwyddiad y gyfundrefn budd-daliadau i'r we.<br>• Gweithredu rhaglen cynhwysiad ariannol i gefnogi unigolion a theuluoedd i arbed arian a rheoli eu cyllideb gan sicrhau nad yw'r newidiadau i fudd-daliadau yn andwyol iddynt.<br>• Gweithredu'r cynllun TRAC 11 - 16 oed i roi cefnogaeth ddwys i bobl ifanc sydd mewn peryg o gael eu heithrio o addysg a/neu waith gan deilwra gweithgaredd i amgylchiadau arbennig Llŷn ac Eifionydd<br>• Cefnogi datblygiad ac yna gweithredu'r cynllun TRAC 16 - 24 eto i roi cefnogaeth ddwys i bobl ifanc hŷn sydd mewn peryg o / wedi cael eu heithrio o addysg a/neu waith gan deilwra gweithgaredd i amgylchiadau arbennig Llŷn ac Eifionydd | Hyd at 2020 |

Drafft

| Cynllun | Gweithgaredd | Gweithredu |
|---|---|---|
| | • Cefnogi datblygiad a gweithredu'r cynllun OPUS fydd yn cynnig cefnogaeth ddwys i unigolion sydd wedi eu heithrio o'r farchnad llafur yn arbennig rhai sydd yn wynebu heriau iechyd meddwl.<br>• Cefnogi datblygiad a gweithredu'r cynllun PaCE i helpu rhieni economaidd anweithgar 25 oed neu fwy i waith drwy eu cynorthwyo i oresgyn rhwystrau gofal plant i alluogi'r rhiant i baratoi a chael mynediad i'r gweithlu. | |
| Llwyddo'n Lleol - gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, mathemateg | • Datblygu a gweithredu cynllun yn seiliedig ar lwyddiant blaenorol y rhaglen Llwyddo'n Lleol i gyfeirio pobl ifanc i feysydd yn gysylltiedig â gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg sydd yn cynnig cyfleoedd gwaith gwerth uchel | Hyd at 2020 |
| Cefnogaeth Busnes | • Gweithredu Cronfa Benthyciadau Busnes Cyngor Gwynedd a chynyddu ymwybyddiaeth busnesu o ardaloedd gwledig y sir o becynnau cymorth busnes y Cyngor.<br>• Cefnogi a chydweithio gyda Rhwydwaith Busnes Gwynedd a'r Ffederasiwn Busnesau Bychain i sicrhau llais cryf i fusnesau'r sir<br>• Dylanwadu i gyfeirio adnoddau rhaglenni cenedlaethol cefnogaeth busnes (megis Busnes Cymru) i ardal Llŷn ac Eifionydd. | Parhaol |
| Cymunedau Arfordirol | • Gweithredu rhaglen o weithgaredd i uchafu'r budd i gymunedau lleol yn deillio o'r llwybr arfordir gan gynnwys cylchdeithiau lleol yn cysylltu cymunedau i'r rhwydwaith cenedlaethol.  12 o'r 18 llwybr sy'n cael eu datblygu'n bresennol yn Llŷn ac Eifionydd.<br>• Annog a chefnogi mynediad gan fentrau yn Llŷn ac Eifionydd i gronfeydd cenedlaethol Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yng Nghymru.<br>• Cefnogi gweithredu'r rhaglen Cadw'r Lliw yn Llŷn gan helpu i adnabod a thargedu ffynonellau o gyllid i sicrhau parhad gweithgareddau o fewn y rhaglen<br>• Cefnogi'r cynllun Eco-Amgueddfa gan gydweithio i ymchwilio i gyfleoedd i ymestyn y model i rannau eraill o Lŷn ac Eifionydd. | Hyd at 2020 |

Drafft

Atodiad 1

Cynllun CyflogaethLlŷn ac Eifionydd

# GWYBODAETH CEFNDIROL

Drafft

# 1. Y Gweithlu Posib

## 1.1. Strwythur y boblogaeth a'r boblogaeth oed gwaith

*Cefndir:*

- 27,584 oedd holl boblogaeth Llŷn ac Eifionydd yn 2013 yn cynnwys pob oed, a hyn yn cynrychioli llai na chwarter (22.6%) poblogaeth y sir – roedd hanner poblogaeth Gwynedd yn byw yn Arfon (50%), ac ychydig dros y chwarter (27.4%) ym Meirionnydd;
- Tra yn Arfon yn 2013 gwelir niferoedd a chanrannau'r ddau begwn rhai oed 0-15 a rhai 65+ yn eithaf agos i'w gilydd, gydag ystadegau'r grŵp 65+ rhyw gymaint yn is (16.8% o'r boblogaeth), yn Llŷn ac Eifionydd roedd nifer a chanran rhai 65 oed a throsodd (7,398 a 26.8%) yn sylweddol uwch na'r grŵp ifanc (4,699 a 17.0%) - roedd sefyllfa Meirionnydd yn eithaf tebyg gyda 27.0% yn 65 oed a throsodd, ac 16.0% rhwng 0 a 15 oed;
- O gymharu'r ddau begwn oedran doedd dim un ward yn Llŷn ac Eifionydd efo canran uwch yn yr oed 0-15;
- O ran y grŵp oedran 0-15 (gweithlu'r dyfodol) roedd 11 o 20 ward Llŷn ac Eifionydd gyda chanran uwch na chanran Gwynedd (17.2%), a'r canrannau uchaf (yn ôl eu trefn) yn wardiau: Botwnnog (20.3%), Clynnog (20.3%), Dwyrain Porthmadog (20.2%), Llanystumdwy (19.4%), Nefyn (19.3%), Tudweiliog (18.9%), Gogledd Pwllheli (18.4%), a De Pwllheli (18.2%);
- O ran y rhai 65 oed a throsodd roedd 18 o'r 20 ward gyda chanran uwch na Gwynedd (21.9%), a'r canrannau uchaf yn sylweddol uwch, ac yn eu trefn: Llanbedrog (38.8%), Gorllewin Porthmadog (38.0%), Criccieth (33.7%), Abersoch (30.9%), Llanengan (29.3%), Dolbenmaen (28.6%), a Morfa Nefyn (28.3%);

*Y boblogaeth oed gwaith:*

- Llŷn ac Eifionydd oedd efo'r boblogaeth oed gwaith isaf o dair Ardal y sir, gyda gostyngiad o 237 ers 2012 – roedd 118 yn llai o bobl oed gwaith yn Llŷn, a 119 yn llai yn Eifionydd yn 2013, gyda'r gostyngiadau mwyaf yn Ardal Criccieth (-92) ac Ardal Pwllheli (-64);
- 15,487 felly oedd poblogaeth oed gwaith Llŷn ac Eifionydd yn 2013 a hynny, ar 56.2%, fymryn dros hanner y boblogaeth gyfan – ond yn is na Gwynedd (60.9%), Arfon (65.3%) a Meirionnydd (57.0%);
- Roedd mwyafrif y bobl oed gwaith yn byw yn Llŷn (10,102), ac ychydig dros hanner hynny (5,385) yn byw yn Eifionydd;
- Y dair ardal leol efo'r boblogaeth oed gwaith uchaf o ran nifer oedd Ardal Pwllheli (3,080), Ardal Nefyn & Gogledd Llŷn (3,035), ac Ardal Criccieth (2,752) – roedd 2,633 yn Ardal Porthmadog, 2,327 yn Ardal De Llŷn, a'r ardal leol isaf ei phoblogaeth oed gwaith oedd Ardal Pen Llŷn (1,660);
- O edrych ar wardiau Llŷn ac Eifionydd roedd canran y boblogaeth oed gwaith dros 50% yn y rhan fwyaf o wardiau - y wardiau gyda'r canrannau uchaf yn yr oed gwaith oedd: Llanaelhaearn (61.4%), Gogledd Pwllheli (60.1%), Abererch (57.9%), Efailnewydd/ Buan (57.6%), Aberdaron (57.5%), a Llanystumdwy

Draft

(57.1%) – yr unig ward efo poblogaeth oed gwaith o dan 50% oedd Llanbedrog (48.5%).

1.2. Y potensial i ychwanegu at y gweithlu

*Gweithgarwch economaidd*

- Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd 13,131 o bobl Llŷn ac Eifionydd yn cael eu hystyried yn Economaidd Weithredol - o'r rheiny roedd 12,139 mewn gwaith, 570 yn ddi-waith a 422 yn fyfyrwyr o ryw fath;
- Roedd 6,403 yn cael eu cyfrif yn Economaidd Anweithredol, gyda 3,818 o'r rhain wedi ymddeol, 723 myfyriwr llawn-amser, gyda 702 arall yn gofalu am y cartref neu'r teulu - roedd 829 yn sâl tymor hir neu'n anabl, a 331 arall ddim wedi eu nodi mewn unrhyw gategori;
- 32.8% felly oedd yn economaidd anweithredol;
- Dyma'r ardal efo'r ganran uchaf o fewn y sir o rai Economaidd Weithredol (67.2%) – ac uwch hefyd na Chymru (65.8%) ond is na Lloegr (69.9%);
- Roedd canran uwch hefyd mewn gwaith (62.1%) o gymharu efo Arfon (53.9%), Meirionnydd (60.2%), Cymru (58.2%) – ac yn union yr un ganran á Lloegr;
- Ar ddiwedd 2013, roedd 1,760 o bobl oed gwaith yn Llŷn ac Eifionydd yn hawlio rhyw fath o fudd-dal, gyda'r mwyafrif helaeth o'r rheiny, sef 1,395 (77.6%) yn hawlio Budd-daliadau Allan o Waith;
- Roedd hyn yn ostyngiad ar ffigyrau 2012, gyda 150 yn llai yn hawlio budd-daliadau yn 2013, gan gynnwys 115 yn llai yn hawlio Budd-daliadau Allan o Waith;
- Er y ffigwr o 1,395 hawlwyr, ni ellir cymryd yn ganiataol y byddai'r bobl yma yn medru gweithio e.e. gwelir o ffigyrau'r Cyfrifiad y gallasai diffyg iechyd neu amgylchiadau eraill fod yn rhwystr;
- Fodd bynnag, dyma'r garfan dargedir gan y newidiadau trefn Lles ar gyfer eu cael i waith.

*Y di-waith:*

- Yn ôl ffigyrau swyddogol 2013 fe amrywiodd graddfa diweithdra Llŷn ac Eifionydd ar draws y flwyddyn, o 3.3% (531 person) yn Ionawr i 1.9% (300 person) ym Mehefin, a chodi wedyn i 2.5% (398 person) yn Rhagfyr gan adlewyrchu natur dymhorol yr economi – o ran Cymru a'r DG fe welwyd gostyngiad cyson dros y misoedd hyn, ac mae Arfon yn dilyn y patrwm hwnnw, yn wahanol i ardaloedd mwy gwledig Llŷn & Eifionydd a Meirionnydd;
- Ond ar yr un pryd fel welir hefyd fod y duedd ar i lawr yn Llŷn ac Eifionydd gyda 133 yn llai o bobl yn y categori di-waith yn Rhagfyr 2013 nag ar gychwyn y flwyddyn;
- Ar hyd ac ar ddiwedd 2013 roedd y gyfradd diweithdra yn is yn Llŷn ac Eifionydd (2.5) nag yn Arfon (3.4), Meirionnydd (2.7), Gwynedd (3.0) na'r DG (2.9);

*Sefyllfa ceiswyr chwilio am waith – JSA (pob oed):*

- Mae'r nifer JSA wrth gwrs yn bwrpasol chwilio am waith, ac felly yn ffigyrau y gellid eu cyfrif fel potensial pendant i ychwanegu at y gweithlu petae swyddi ar gael yn yr ardal;

Draft

- Roedd 398 o bobl yn hawlio'r JSA yn Llŷn ac Eifionydd ddiwedd 2013, 262 yn Llŷn a 136 yn Eifionydd - gostyngiad o 92 yn y cyfanswm ers 2012, sef gostyngiad o 68 yn Llŷn a 24 yn Eifionydd;
- Roedd y 398 hawlwyr JSA pob oed yn gyfystyr â 2.6% o'r boblogaeth oed gwaith – llai nag yn Arfon (3.3%), Meirionnydd (2.8%), a Gwynedd (2.9%);
- Fodd bynnag cynyddodd nifer yr hawlwyr JSA yn Llŷn ac Eifionydd o 298 ym Mehefin 2013 i 398 yn Rhagfyr 2013, gyda Meirionnydd yn dilyn yr un patrwm – roedd hyn yn hollol groes i'r duedd yn Arfon, Cymru a'r DG lle gwelwyd gostyngiad yn nifer y JSA pob oed;
- O'r 398 yn hawlio'r JSA ddiwedd 2013 roedd 125 (31.4%) wedi bod yn hawlio dros 6 mis ac 80 (20.1%) am dros 12 mis – roedd hyn yn is nag yn Arfon, Meirionnydd, Gwynedd, Cymru na'r DG.

*Sefyllfa ceiswyr chwilio am waith – JSA (dan 25 oed):*

- Roedd 115 o'r hawlwyr JSA o dan 25 oed ar ddiwedd 2013, 75 yn Llŷn a 40 yn Eifionydd – eto roedd hyn yn ostyngiad o 30 ar ffigwr diwedd 2012, gyda 25 yn llai yn Llŷn a 5 yn llai yn Eifionydd;
- Roedd y 115 o dan 25 oed yn cynrychioli 28.9% o'r holl JSA – canran uwch nag yn Arfon, Meirionnydd, Gwynedd, Cymru na'r DG;
- O'r 115 roedd 15 wedi bod yn hawlio dros 6 mis, a 5 dros 12 mis – a'r canrannau perthnasol hefyd yn rhai bychan iawn o gymharu efo Arfon, Gwynedd, Cymru a'r DG, ond rhyw drwch blewyn yn uwch na Meirionnydd oedd â'r canrannau mwyaf ffafriol o ran JSA dan 25 oed;
- O edrych ar y patrwm wardiau roedd y ganran uchaf o JSA o dan 25 oed yn Abererch (50.0%), Aberdaron (44.4%), Botwnnog (44.4%), Abersoch (40.0%), a Morfa Nefyn (38.5%);
- Roedd y canrannau uchaf JSA o ran yr oedran hŷn, sef 25 oed a throsodd, yn wardiau: Tudweiliog (100%), Efailnewydd–Buan (81.8%), Nefyn (80.6%) Criccieth (78.9%), a Thremadog (78.9%).
- O'r ffigyrau JSA ochr yn ochr â'r ffigyrau diweithdra, ac heb eu cyfrif ddwywaith, gellid rhagweld, gyda'r amgylchiadau cywir, ychwanegu oddeutu 300 i 500 at y gweithlu yn Llŷn ac Eifionydd yn ddibynnol ar swyddi fod ar gael, ac ar gael yn y mannau sy'n cyd-fynd efo'r galw lleol;
- Fe fydd disgwyl hefyd i gyfran o'r rhai ar Fudd-daliadau ymuno â'r gweithlu, ac fe fyddai'r rhain yn ychwanegiad eto at nifer y gweithlu yn yr ardal, ond anodd iawn fyddai rhoi ffigwr pendant ar hynny ar y pwynt yma.

## 1.3. Swyddi y ceisir amdanynt

- Hyd at 2013 trefn gydnabyddedig Llywodraeth Prydain ar gyfer adnabod ffigyrau a manylion swyddi gwag, a'r mathau o swyddi roedd Ceiswyr Gwaith am eu cael, oedd trwy'r Canolfannau Gwaith – ac er nad oedd hyn yn rhoi ffigyrau absoliwt o'r rhai oedd yn chwilio am waith, roedd yn cynnig sail ddibynadwy a swyddogol ar gyfer cymhariaeth ar draws ardaloedd a gwahanol rannau o Gymru a'r DG;
- Fe newidiodd Llywodraeth Prydain y drefn yn 2013, ac heb drefn ystadegol ddibynadwy arall mewn lle ni ellir priodi ffigyrau'r Ceiswyr Gwaith (JSA) â'r swyddi

Drafft

y ceisir yn y flwyddyn honno, na chwaith â'r swyddi gwag oedd ar gael ar eu cyfer;

- Gwybodaeth diwedd 2012 felly sy'n rhoi'r setiau ffigyrau dibynadwy olaf ar gael ac maent wedi eu cynnwys yn y ddogfen yma fel modd o ychwanegu at y darlun o'r gweithlu a'r economi;
- Roedd galw am 105 o swyddi yn Ardal Pwllheli; 80 yn Ardal Porthmadog; 75 yn Ardal Nefyn & Gogledd Llŷn; 50 yn Ardal Criccieth; 25 yn Ardal De Llŷn, a 10 yn Ardal Pen Llŷn - roedd felly alw am 345 swydd, 215 yn Llŷn a 130 yn Eifionydd;
- O ran mathau o swyddi, roedd galw am 110 swydd yn y categori Galwedigaethau Elfennol (e.e. labro, glanhau ac amrywiol weithgareddau eraill); 100 swydd Gwerthiant a Gofal Cwsmer; 35 swydd yn y Crefftau Sgilgar (megis seiri, plymwyr, trydanwyr ac amrywiol weithgareddau eraill); 30 swydd Gweithredu Peiriannau a Phrosesau; 25 swydd Gweinyddol ac Ysgrifenyddol; 20 swydd Gwasanaethau Personol (e.e. trin gwallt, harddwch, ffitrwydd ac amrywiol weithgareddau eraill); 10 swydd Rheolaeth ac Uwch Swyddogion; 10 swydd yn y Galwedigaethau Proffesiynol; 0 swydd Proffesiynol Perthynol a Thechnegol; a 5 swydd arall o ryw fath heb fanylu ymhellach;
- Roedd y dewisiadau gwaith yn amrywiol, ond gyda'r galw mwyaf am swyddi traddodiadol bob dydd - doedd neb e.e. yn chwilio am waith ym maes Technoleg, maes a ystyrir yn un gwerth uchel, a maes efo potensial i dyfu a chynnig cyfleoedd newydd am swyddi da.

Drafft

# 2. Swyddi a Strwythur Cyflogaeth

## 2.1. Nifer a mathau o swyddi ar gael

*Swyddi gwag*

- Cyfeirir yn Y Gweithlu Posib uchod at y newid fu yn nhrefn Llywodraeth Prydain o ran casglu a sefydlu gwybodaeth am swyddi gwag – gwybodaeth Canolfannau Gwaith diwedd 2012 felly oedd y wybodaeth ddibynadwy olaf y gellid ei defnyddio ar gyfer ystyried sefyllfa 2013;
- O ystyried y ffigyrau diwaith yn Ionawr 2013 (531), doedd dim digon o swyddi gwag i gwrdd â'r gofyn;
- 155 o swyddi oedd ar gael yn Llŷn ac Eifionydd ddiwedd 2012, o gymharu â 537 swydd wag yn Arfon, a 192 ym Meirionnydd – o dair Ardal Gwynedd felly, Llŷn ac Eifionydd oedd gyda'r nifer a'r gymhareb isaf o swyddi gwag;
- Yn Llŷn ac Eifionydd 1 swydd oedd ar gael ar gyfer pob 3.4 person diwaith; yn Arfon 1 swydd ar gyfer pob 2.8 person diwaith; ym Meirionnydd 1 swydd ar gyfer pob 3.5 person diwaith, ac yng Ngwynedd 1 swydd ar gyfer pob 3.1 person diwaith - fodd bynnag, roedd y sefyllfa ar gychwyn 2013 yn well yn ardaloedd Gwynedd nag yng Nghymru (4.0 person diwaith i bob swydd), a'r DG (4.1 person diwaith i bob swydd);
- Ardal Porthmadog oedd â'r nifer uchaf o swyddi gwag (75 swydd), sef bron i hanner y swyddi gwag yn Llŷn ac Eifionydd - roedd 42 swydd wag yn Ardal Pwllheli; 25 swydd wag yn ardal Criccieth; 10 swydd wag yn Ardal De Llŷn; 3 swydd wag yn unig yn Ardal Nefyn a Gogledd Llŷn, a 0 swydd wag o gwbl yn Ardal Pen Llŷn;
- O gymau'r swyddi gwag yn yr ardaloedd lleol gyda'r nifer Ceiswyr Gwaith lleol gwelir:
  - 75 swydd ac 80 Ceisydd Gwaith yn Ardal Porthmadog, sef diffyg 5 swydd;
  - 42 swydd a 105 Ceisydd Gwaith yn Ardal Pwllheli, sef diffyg 63 swydd;
  - 3 swydd a 75 Ceisydd Gwaith yn Ardal Nefyn & Gogledd Llŷn, sef diffyg 72 swydd;
  - 25 swydd a 50 Ceisydd Gwaith yn Ardal Criccieth, sef diffyg 25 swydd;
  - 10 swydd a 25 Ceisydd Gwaith yn Ardal De Llŷn, sef diffyg 15 swydd;
  - 0 swydd a 10 Ceisydd Gwaith yn Ardal Pen Llŷn, sef diffyg 10 swydd;
- Roedd y sefyllfa felly ar ei mwyaf ffafriol yn Ardal Porthmadog, gyda'r diffyg mwyaf o ran swyddi gwag ar gael yn Ardal Nefyn & Gogledd Llŷn ac Ardal Pwllheli, gyda diffyg amlwg iawn hefyd yn Ardal Pen Llŷn.

*Mathau o swyddi ar gael*

- O ran y mathau o swyddi ar gael ddiwedd 2012 roedd:
  - 9 swydd Galwedigaethau Elfennol ar gyfer y 110 person oedd yn eu ceisio;
  - 62 swydd Gwerthiant a Gofal Cwsmer ar gyfer y 100 oedd yn eu ceisio;
  - 11 swydd Crefftau Sgilgar ar gyfer y 35 oedd yn eu ceisio;
  - 4 swydd Rheolwyr ac Uwch Swyddogion ar gyfer y 10 oedd yn eu ceisio;
  - 0 swydd Gweithredu Peiriannau a Phrosesau ar gyfer y 30 oedd yn eu ceisio;
  - 0 swydd Gweinyddol ac Ysgrifenyddol ar gyfer y 25 oedd yn eu ceisio;

Drafft

- fodd bynnag, doedd dim digon o geiswyr gwaith ar gyfer swyddi gwag Gwasanaethau Personol (49 swydd ac 20 ceisydd), nac yn y categori Proffesiynol Perthynol a Thechnolegol ( 9 swydd a 0 ceiswyr).
- Gwelir felly fod diffyg cydweddiad rhwng angen y ceiswyr gwaith a'r swyddi ar gael, a pheth diffyg cydweddiad hefyd rhwng y galw gan gyflogwyr a'r cyflenwad gweithwyr yn lleol, yn enwedig mewn meysydd gwerth uchel megis Technoleg.

*Natur swyddi'r gweithlu*

- O'r 9,200 o swyddi yn Llŷn ac Eifionydd yn 2013 roedd 59.3% yn rhai llawn amser a 40.7% yn rhai rhan amser - roedd y ganran llawn amser yma yn is nag yn ardaloedd eraill Gwynedd na'r sir, na Chymru (64.8%) na Phrydain (67.7%), ac yn yr un modd roedd y ganran rhan amser yn uwch yn Llŷn ac Eifionydd gyda Chymru efo 35.2% o'r gweithlu yn rhan amser, a Phrydain efo 32.3% yn rhan amser;
- Doedd y ffigyrau yma ddim yn cynnwys gweithwyr amaeth ar ffermydd.

## 2.2. Strwythur cyflogaeth

*Ymhle mae'r gyflogaeth bresennol?*

- Roedd oddeutu 9,200 yn cael eu cyflogi mewn mannau gwaith ar draws Llŷn ac Eifionydd yn 2013, oddeutu 4,900 yn cael eu cyflogi yn Llŷn, ac oddeutu 4,400 yn Eifionydd;
- Roedd y gyflogaeth fwyaf mewn mannau gwaith yn Ardal Porthmadog (2,700), Ardal Pwllheli (2,600), gydag oddeutu 1,700 yn Ardal Criccieth, ac oddeutu 1,000 yn Ardal De Llŷn, a 900 yn Ardal Nefyn & Gogledd Llŷn;
- Ardal Pen Llŷn oedd â'r gyflogaeth isaf (400);
- Roedd cyflogaeth arwyddocaol hefyd mewn cymunedau llai e.e. oddeutu 1,000 yn Llanystumdwy; 500 yn Abersoch; 300 yn Nefyn, 400 yn Abererch, a 300 yn Llanaelhaearn.
- O edrych ar y boblogaeth oed gwaith ar gyfer yr ardaloedd lleol ochr yn ochr â'r ffigyrau cyflogaeth uchod gwelir darlun o fwlch cyflogaeth yn rhan fwyaf o'r ardaloedd - ar y llaw arall roedd sefyllfa eithaf cytbwys yn Ardal Porthmadog gyda chyflogaeth o tua 2,700 a phoblogaeth oed gwaith o 2,633 (sefyllfa o +67);
- Roedd cryn fwlch cyflogaeth yn yr Ardaloedd eraill - Ardal Nefyn & Gogledd Llŷn oedd gyda'r bwlch mwyaf (-2,135), ac wedyn yn eu trefn: Ardal De Llŷn (-1,327), Ardal Pen Llŷn (-1,260), ardal Criccieth (-1,052), ac Ardal Pwllheli (-480);
- Defnyddir y cymariaethau yma fel dull o amlygu cryfder neu wendid strwythurol yn unig, yn yr economi ac mewn ardaloedd lleol penodol - gan bwysleisio na fyddai disgwyl gweld cyflogaeth 100% mewn unrhyw economi marchnad rydd, gan gynnwys Llŷn ac Eifionydd.
- Mae'r canfyddiad yn un pendant – sef gwendid strwythurol a methiant y farchnad;
- Amcangyfrifir hefyd fod oddeutu 2,739 o weithwyr yn teithio tu hwnt i'r ardal i weithio yn 2013.
- Wrth gwrs, rhaid cofio nad oes ffiniau o gwmpas Llŷn ac Eifionydd - mae trigolion yn teithio i fannau eraill i weithio, ac eraill yn teithio i mewn i'r ardal i'w gwaith;

Drafft

- Ar yr un pryd, wrth i ddiwygiadau i'r trefniadau Lles ddod yn weithredol bydd pwysau cynyddol ar rai ar Fudd-daliadau i ganfod gwaith – a gyda 1,395 yn Llŷn ac Eifionydd yn derbyn Budd-daliadau Allan o Waith mae'n amlwg fod yr economi leol yn wynebu cryn her os am ddarparu ar eu cyfer.

## 2.3. Sectorau gwaith

*Y sector gyhoeddus a'r sector breifat*

- Mae dau ddull gwahanol o gyfrifo maint y sector gyhoeddus a'r sector breifat;
- Mae un dull yn defnyddio'r sectorau diwydiannol Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Addysg a Iechyd efo'i gilydd fel proxy ar gyfer canfod maint y sector gyhoeddus, ond mae problem amlwg, sef fod y data yn cynnwys busnesau preifat hefyd;
- Mae'r dull arall yn seiliedig ar arolwg o weithwyr ardal i'w dosbarthu i'r sector briodol gyda sicrwydd cywirdeb o 95% - dyma'r dull sydd wedi ei fabwysiadu yma, ond gan fod y sail ar ardal ddaearyddol Dwyfor/ Meirionnydd a'r sefyllfa'n eithaf tebyg yn y ddwy ardal defnyddir y canrannau i gael at y darlun ar gyfer Llŷn ac Eifionydd;
- Dengys y data ar gyfer 2013 fod 21.5% o weithwyr Dwyfor/Meirionnydd yn y sector gyhoeddus, gyda 78.5% yn y sector breifat;
- Gwelir felly fod maint y sector gyhoeddus yn yr ardal yn is nag yn Arfon (31.3%), Gwynedd (26.3%) a Chymru (29.6%) - gyda'r sector breifat felly yn uwch yn yr ardal nag yn Arfon (68.7%), Gwynedd (73.7%), a Chymru 70.4%;
- Gan fod amrywiaeth ac ystod o swyddi ar bob lefel cyflog yn nodwedd o'r sector gyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys nifer o swyddi da ar lefelau cyflog canolig ac uwch, ac yn sicr yn uwch na'r cyflog byw, mae presenoldeb is y sector gyhoeddus o fewn yr ardal yn rhwym o effeithio ar y cyfleon cyflogaeth, ac ar lefelau cyflog a gwariant o fewn yr economi.

*Sectorau diwydiannol*

- O'r 18 categori diwydiannol swyddogol roedd pob un o'r sectorau yn cael eu cynrychioli yn Llŷn ac Eifionydd yn 2013 o ran mentrau a chyflogaeth;
- Fodd bynnag, roedd maint eu presenoldeb yn yr economi leol yn amrywio'n fawr – y sail ddaearyddol unwaith eto ar gyfer cyfrifo mentrau ar draws y gwahanol sectorau ydi ardal Dwyfor/Meirionnydd a gellir gwneud cymariaethau trwy ddefnyddio'r canrannau, gan dderbyn rhaniad cyfartal yn y nifer mentrau rhwng y ddwy ardal i bwrpas amlygu'r darlun bras yn Llŷn ac Eifionydd.

*Sectorau diwydiannol a mentrau*

- Y sector fwyaf o bell ffordd felly oedd Amaeth, Coedwigaeth a Physgota gyda 26.9% o holl fentrau'r ardal yn y sector – roedd presenoldeb y sector yma yn drawiadol o gymharu efo Arfon (8.7% o fentrau yn y sector), a Chymru (12.6%);
- Roedd presenoldeb y sector Llety a Bwyd yn amlwg gyda 12.3% o holl fentrau'r ardal yn y sector – presenoldeb uwch nag Arfon (9.9%), a Chymru (8.1%);
- Roedd canran presenoldeb y sector Adeiladwaith ar 9.6% o holl fentrau'r ardal hefyd yn uwch nag Arfon (8.9%), ond fymryn yn is na Chymru (9.8%);
- Roedd 11.1% o fentrau'r ardal yn y sector Mânwerthu – llai o bresenoldeb felly yn yr economi nag yn Arfon (13.3%), a Chymru (11.8%);

Drafft

- Y sector wanaf o ddigon o gymharu ag ardaloedd eraill oedd Gwybodaeth a Chyfathrebu gydag 1.9% o fentrau'r ardal yn y sector yma, sef sector ystyrir yn un gwerth uchel – roedd 4.4% o fentrau Arfon yn y sector yma, a 3.5% o fentrau Cymru;
- Roedd sector gwerth uchel arall hefyd yn isel ei phresenoldeb, sef y sector Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnoleg gyda 4.9% o fentrau yn y sector o gymharu ag Arfon (7.6%), a Chymru (9.2%);
- Roedd y Celfyddydau, Adloniant, Hamdden a Gwasanaethau Eraill yn cynrychioli 5.1% o fentrau'r ardal – tipyn is nag Arfon (8.3%), ac is na Chymru (6.5%);
- Roedd yr 11 sector arall hefyd yn is eu presenoldeb o fewn economi'r ardal ar sail canran y mentrau o fewn y sectorau hynny – felly 3 sector yn unig oedd â phresenoldeb uwch yn yr ardal, sef Amaeth, Coedwigaeth & Physgota, a Llety & Bwyd, y ddwy sector yn amlwg iawn gyda phresenoldeb gref, gyda'r sector Adeiladwaith rhyw fymryn yn gryfach o ran canran mentrau nag Arfon;
- <u>Yn 2013, felly, o safbwynt mentrau o fewn yr economi leol roedd yr ardal yn gref o ran mentrau mewn sectorau ystyrir yn rhai gwerth isel, ac yn wan yn y sectorau ystyrir yn rhai gwerth uchel.</u>

*Sectorau diwydiannol a chyflogaeth*

- Er cryfder amlwg y sector Amaeth, Coedwigaeth a Physgota o safbwynt y ganran mentrau yn yr ardal, dydi'r dadansoddiadau sector ddim yn cynnwys cyflogaeth ar ffermydd, ac felly dim ond 0.2% o gyflogaeth Llŷn ac Eifionydd nodir o fewn y sector hon – ond wrth edrych ar Arolwg Amaethyddol Cymru 2002-2011 adnabuwyd oddeutu 1,459 o ffermwyr a 414 o weithwyr amaeth ar ffermydd yn Llŷn ac Eifionydd, sef cyfanswm cyflogaeth o 1,873 yn y sector;
- Y sector gyda'r gyflogaeth fwyaf o ddigon yn 2013 oedd Llety a Bwyd, yn cyflogi 2,100 o weithwyr sef 22.5% o gyflogaeth yr ardal – uwch na Meirionnydd (18.7%) a chanran llawer uwch nag Arfon (9.8%, ond efo 3,100 o weithwyr), a Chymru (7.5%);
- Roedd y sector Mânwerthu hefyd yn gryf o ran nifer a chanran y gyflogaeth, sef yn cyflogi 1,400 o weithwyr yn cyfateb i 15.8% o gyflogaeth yr ardal – roedd hyn yn uwch na Meirionnydd (9.1%), ac yn ganran uwch nag Arfon (11.5%) a Chymru (10.8%), ond rhaid nodi fod nifer uwch, sef 3,600 yn cael eu cyflogi yn y sector yn Arfon;
- Er nad oedd y sector Iechyd yn gryf o ran presenoldeb mentrau yn yr economi leol (4.7%), mae'n werth nodi fod 12.1% o gyflogaeth yr ardal o fewn y sector yma, sef 1,100 o swyddi – ar yr un pryd roedd y sector yn llawer cryfach yn Arfon (21.0% o'r gyflogaeth a 6,600 o weithwyr), a Chymru (16.6%);
- Fe welwyd fod y sector Celfyddydau, Adloniant , Hamdden & Gwasanaethau Eraill dipyn yn is ei phresenoldeb o ran mentrau, ond roedd yn cyflogi 700 o weithwyr, sy'n cyfateb i 8.1% o gyflogaeth Llŷn ac Eifionydd – canran uwch na Meirionnydd (6.1%), ac Arfon (3.6%, ond efo 1,100 o weithwyr), a Chymru (4.2%);
- Roedd 4.9% o'r gyflogaeth yn y sector Cyfanwerthu, sef 500 gweithiwr, ac roedd y ganran yma oddeutu dwywaith cymaint â throsodd y ganran ym Meirionnydd (2.3%), Arfon (1.4%) a Chymru (2.7%) - roedd nifer uwch yn cael eu cyflogi yn y sector hon hefyd nag yn Arfon (400) na Meirionnydd (200);
- O ran y sector Adeiladwaith, er bod presenoldeb eithaf cryf o ran mentrau, 5.6% o'r holl gyflogaeth sef 500 gweithiwr oedd yn cael eu cyflogi yn yr ardal – roedd y

Drafft

ganran yn is nag ym Meirionnydd (6.2%) ond yn dipyn uwch nag yn Arfon (3.2%, oedd fodd bynnag yn cyflogi 1,000), ac yn uwch na Chymru (4.3%);

- Y sectorau gwanaf o ran y gyflogaeth oedd Gwybodaeth a Chyfathrebu yn cyflogi 100 sef 0.6% o gyflogaeth yr ardal o gymharu ag Arfon (2.3% a 700 swydd) a Chymru (1.8%) – trwy gymharu ardaloedd eto roedd y sectorau Eiddo (0.9%) a Chyllid a Siwrans (1.2%) yn eithaf gwan hefyd, gyda'r sector Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol hefyd yn is ar 3.0% a 300 swydd nag Arfon (4.4% a 1,400 swydd), a Chymru (4.8%);
- Eto gwelir y gogwydd pendant yn Llŷn ac Eifionydd tuag at y sectorau ystyrir yn rhai gwerth isel ond sy'n darparu cyflogaeth sylweddol, gyda chyflogaeth isel yn y sectorau hynny ystyrir yn rhai gwerth uchel gyda chyflogau da.

## 2.4. Gweithleoedd a'u cyflogaeth

*Maint mentrau*

- Roedd 88.1% o fentrau Dwyfor/Meirionnydd (3,860) yn rhai Meicro yn cyflogi 0-9 gweithiwr, canran tipyn uwch nag Arfon (78.8%), ac ychydig uwch na Chymru (82.6%), na'r DG (82.7%);
- Roedd 10.5% o fentrau'r ardal (405) yn rhai Bach yn cyflogi 10-49 o weithwyr – y tro yma canran dipyn is nag Arfon (17.5%), Cymru (14.6%) na'r DG (13.9%);
- 1.4% yn unig o fentrau'r ardal oedd o faint Canolig, a chanran rhy fychan i'w chyfrifo yn fentrau Mawr (0.0%) – roedd 3.2% o fentrau Arfon yn rhai Canolig (0.4% Mawr); 2.9% Cymru yn Ganolig (0.4% Mawr); 2.9% DG yn Ganolig (0.5% Mawr);

*Cyflogaeth*

- Gan ddibynnu ar ffigyrau 2012 (y rhai olaf geir), gwelir fod mannau gwaith Meicro yr ardal yn cyflogi oddeutu 2,800; gweithleoedd Bach yn cyflogi oddeutu 3,900; gweithleoedd Canolig yn cyflogi oddeutu 2,100 - prin mewn cymhariaeth oedd y gweithwyr mewn mannau gwaith Mawr, gyda dynodiad 0 yn yr ystadegau oherwydd sensitifrwydd masnachol;
- Er presenoldeb sylweddol mentrau Meicro, yn cyflogi oddeutu 30.4% o'r gweithlu, mae mwy o weithwyr Llŷn ac Eifionydd (42.4%) mewn mannau gwaith Bach, gyda 22.8% hefyd mewn mannau gwaith Canolig;
- Ar yr un pryd, mae'r ganran sy'n gweithio mewn mentrau maint Meicro (30.4%) yn sylweddol uwch nag yn Arfon (14.1%); Gwynedd (19.4%); Cymru (15.6%), a Phrydain (14.2%);
- Mae'r patrwm yn debyg o ran y gweithwyr mewn mannau gwaith Bach, gyda'r 42.4% yn Llŷn ac Eifionydd i'w gymharu â 29.3% yn Arfon; 34.7% yng Ngwynedd; 30.1% yng Nghymru, a 27.8% ym Mhrydain;
- Mae'r ganran o weithwyr mewn mentrau Canolig yn gymharol is yn Llŷn ac Eifionydd – ond mae'r canrannau yn eithaf agos i'w gilydd ar draws yr ardaloedd cymhariaeth o 22.8% yn Llŷn ac Eifionydd, i 28.0% ym Mhrydain yn y pegwn arall;
- Amcangyfrifir o edrych ar wahanol ffynonellau mai rhyw 4.4% o weithwyr Llŷn ac Eifionydd sydd mewn mentrau Mawr, a hynny yn sylweddol is nag Arfon (32.9%); Gwynedd (21.8%); Cymru (27.2%), a Phrydain (28.0%);



Draft

- Mae'n anorfod fod dibyniaeth economi Llŷn ac Eifionydd ar y mentrau meicro a bach, a'r diffyg gweithleoedd maint canolig a mawr, yn dylanwadu ar faint y gyflogaeth o fewn yr ardal ac ar bosibiliadau twf i gwrdd â gofynion cyflogaeth heddiw ac i'r dyfodol – ac yn anffodus, o gofio hefyd gryfder presenoldeb y sectorau gwerth isel, mae'n amlwg nad ydi'r mentrau meicro a bach yma, er eu lluosogrwydd, yn creu'r mas critigol sydd ei angen mewn sectorau gwerth uchel sy'n talu'n dda.

### 2.5. Eiddo busnes trefi Llŷn ac Eifionydd

- Edrychwyd ar restrau treth busnes Gwynedd – roedd y nifer uchaf o eiddo busnes yn nhref Pwllheli (388 eiddo), a thref Porthmadog (372 eiddo), gyda 170 eiddo busnes yn nhref Nefyn, a 152 yn nhref Criccieth;
- Ar raddfa Gwynedd gyfan roedd 92.4% o'r eiddo busnes mewn defnydd – roedd trefi Criccieth (94.7%), Pwllheli (94.6%) a Phorthmadog (94.1%) i gyd gyda chanrannau uwch o eiddo busnes mewn defnydd na'r sir, ac felly gyda llai o eiddo busnes gwag na chanran Gwynedd;
- Roedd Nefyn gyda chanran arwyddocaol is o eiddo busnes mewn defnydd (89.4%), ac felly roedd 10.6% o'r eiddo busnes yn wag, sef 18 eiddo gwag gydag effaith negyddol amlwg mewn tref fechan, ac yn cynrychioli cyfle yn cael ei golli o ran cynnal cyflogaeth mewn ardal o fwlch cyflogaeth sylweddol.

# 3. Sefyllfa Ffyniant yr Ardal

### 3.1. Gwybodaeth Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011 (MALlC)

- Mae MALlC yn mesur ardaloedd cyfrif o tua 1,500 o drigolion ar draws 8 maes gweithgaredd - yn Llŷn ac Eifionydd mae 17 ardal gyfrif (o gymharu ag 20 Ward);
- O ran y darlun cryno o nifer ardaloedd cyfrif MALlC ar draws yr 8 maes gweithgaredd, ychydig yn Llŷn ac Eifionydd sydd yn y 30% mwyaf amddifad yng Nghymru– cyfanswm o 35 ardal gyfrif ar draws yr 8 maes yn Llŷn ac Eifionydd o gymharu â 63 ardal yn Arfon, a 43 ym Meirionnydd, a'r ffigyrau yn sicr ddim yn ddigon i amlygu'r ardal fel un o angen ar y rhestrau cenedlaethol;
- Serch hynny o'r 17 ardal gyfrif yn Llŷn ac Eifionydd mae pob un yn ymddangos yn y 30% gwaethaf mewn un neu fwy o feysydd;
- Mae 13 o'r 17 ardal gyfrif yn y 10% gwaethaf yng Nghymru mewn un neu ddau o'r meysydd gweithgaredd;
- Fodd bynnag, does yr un ardal gyfrif yn Llŷn ac Eifionydd yn ymddangos yn y 10% na'r 30% gwaethaf o ran meysydd Incwm na Chyflogaeth;
- Mae edrych ar ardaloedd mwy lleol trwy gyfrwng daearyddiaeth y Cynllun Cyflogaeth yma, a setiau eraill o wybodaeth wedi eu seilio ar wardiau, yn cynnig darlun tra gwahanol o sefyllfa ffyniant Llŷn ac Eifionydd – a darlun cefndirol mwy perthnasol i'r maes cyflogaeth

### 3.2. Incwm blynyddol aelwydydd

Drafft

- Yn 2013 o'r 12,624 aelwyd yn Llŷn ac Eifionydd roedd 18.4% efo incwm o lai na £10,000 y flwyddyn, sef 2,322 aelwyd;
- Roedd y ganran yma dros ddwywaith ffigwr Cymru (8.9%) a'r DG (7.3%) – roedd yn uwch hefyd nag Arfon (17.2%) na chanran Gwynedd (18.0%), er ychydig yn is na Meirionydd (19.1%);
- Y wardiau efo'r aelwydydd incwm isaf, h.y. yn dangos canran uwch na'r cyfartaledd ardal o aelwydydd efo incwm o dan £10,000 y flwyddyn, oedd Gogledd Pwllheli (23.2%), Tremadog (22.5%), Llanbedrog (21.5%), Llanaelhaearn (21.0%), Botwnnog (20.7%), Dwyrain Porthmadog (20.7%) a De Pwllheli (20.5%);
- Dros gyfnod y Dirwasgiad a pholisïau Llymder ym Mhrydain (2009-2013) gwelodd Llŷn ac Eifionydd ostyngiad o 13.1% yn incwm canolrif aelwydydd, sef colled o £3,253 - gostyngiad mwy nag a brofwyd yn Arfon (-8.1%) na Gwynedd (-11.1%), ond rhyw ychydig yn well na Meirionnydd (-14.2%);
- Yn nhermau Cymru a'r DG roedd canran y gostyngiad incwm rhwng 2009-2013 yn Llŷn ac Eifionydd ddwywaith canran y gostyngiad yng Nghymru (6.6%) a'r DG (6.5%).
- Wrth ystyried y ffigyrau incwm a thlodi dylid hefyd gadw mewn cof y ganran uchel o drigolion dros 65 oed yn yr ardal, ac hefyd effaith niferoedd y busnesau meicro.

## 3.3. Tlodi

- Y diffiniad cydnabyddedig o dlodi ydi byw ar incwm llai na 60% o incwm canolrifol Prydain, sef £16,505 yn 2013.
- Roedd 4,817 aelwyd, sef 38.2% o holl aelwydydd Llŷn ac Eifionydd, yn byw o dan y trothwy tlodi yma yn 2013 - canran uwch nag yn Arfon (35.6%), Gwynedd (37.3%), Cymru (27.6%) na Phrydain (23.6%), ond eto sefyllfa rhyw ychydig yn well na Meirionnydd (39.3%);
- O ran ardaloedd lleol Llŷn ac Eifionydd y 3 ardal gyda'r ganran uchaf o aelwydydd dan y trothwy tlodi oedd Ardal Pwllheli (21.8%), Ardal Porthmadog (19.2%), ac Ardal Nefyn & Gogledd Llŷn (18.6%);
- Y wardiau unigol o fewn yr ardal gyda'r canrannau uchaf o aelwydydd o dan y trothwy tlodi oedd (yn ôl eu trefn): De Pwllheli (44.8%); Llanbedrog (43.3%); Tremadog (42.8%), Dwyrain Porthmadog (41.9%); Llanaelhaearn (41.7%), Botwnnog (41.5%), a Gogledd Pwllheli (41.1%).

## 3.4. Y gallu i brynu tŷ

- Wrth ystyried ffyniant ardal a'i thrigolion mae gallu'r incwm dderbynnir i sicrhau hanfodion bywyd yn ffactor berthnasol – gyda'r gallu i brynu tŷ yn ffactor allweddol, ac fe edrychwyd felly ar ystadegau prisiau tai fel cyd-destun wrth ystyried lefelau incwm yr ardal;
- Yn Llŷn ac Eifionydd yn 2013 roedd angen 7.7 gwaith yr incwm canolrif i alluogi person neu deulu i brynu tŷ – roedd hyn yn cymharu â 5.6 gwaith yr incwm yn Arfon; 6.3 gwaith yr incwm ym Meirionnydd, a 6.1 gwaith yr incwm yng Ngwynedd gyfan;

Drafft

- Roedd hyn yn golygu felly fod 67.8% o gartrefi Llŷn ac Eifionydd tu hwnt i gyrraedd y farchnad leol, gyda'r ganran yn rhai wardiau uwchben 80% - yn wir 91.9% o dai wedi eu prisio allan o'r farchnad leol yn Llanbedrog; 91.2% yn Abersoch; 85.4% yn Aberdaron; 82.5% yng Ngorllewin Porthmadog, ac 81.0% yng Nghriccieth. Yn y pegwn arall roedd 2 ward o dan 50% - sef 39.8% o gartrefi yng Nghlynnog, a 48.9% yn Nhudweiliog;
- O edrych ar ganolrif incwm wardiau Llŷn ac Eifionydd ochr yn ochr â chyfartaledd prisiau tai o fewn yr un ardal, gwelir fod maint yr incwm oedd ei angen ar gyfer prynu tŷ yn y gwahanol ardaloedd yn amrywio o 5.3 gwaith yr incwm yng Nghlynnog i 15.3 gwaith yr incwm yn Llanbedrog;
- Yn ôl canllawiau'r benthycwyr morgais felly, mae'r ffigyrau yma yn awgrymu nad oedd unman yn Llŷn ac Eifionydd gydag incwm canolrif digonol i brynu tŷ lleol yn 2013. Ond wrth gwrs, ar yr un pryd mae unigolion o fewn ardaloedd Llŷn ac Eifionydd yn parhau i fedru prynu tai yn lleol. Darlun ystadegol sydd yma, ac yn ffordd o amlygu gallu neu anallu cyllidol cyffredinol ardal – ond dydi'r ffigyrau ddim yn darlunio sefyllfa absoliwt, ac ni ddylid eu dehongli felly;
- Ar yr un pryd mae'n amlygu sefyllfa o dlodi ar raddfa ddaearyddol eang yn Llŷn ac Eifionydd, ac nid mewn pocedi, wardiau neu leoliadau cyfyngedig yn unig.

Drafft